

## ❖ PEIDIWCH Â SIARAD EFO DYNION DIARTH

*Bugail***Darllen: Luc 2:8–14****Myfyrdod**

Peidiwch â siarad gyda dynion diarth.

Glywsoch chi honna o'r blaen?

Clywais hi droeon,

yn amlach nag y gallaf gofio.

Pam dweud hynny?

Oherwydd fi, gan amlaf, yw'r dyn diarth

y bydd pobl yn sôn amdano.

'Blant, cadwch yn ddigon pell o'r dyn yna,  
chewch chi ddim byd ond trwbl os ewch chi'n agos ato.'

Ie, felly mae pobl yn ein gweld –

nid fel bugeiliaid,

ond gwehilion, baw gwaelod y domen.

A'r hyn sy'n waeth,

ymhen amser mae'n anodd peidio â'i gredu,

pob arlliw o urddas a hunan barch wedi ei erydu

gan gleber gwenwynig

ac ensyniadau tan din.

Dyna wnaeth y noson o'r blaen mor arbennig –

y noson y gwelsom angylion,

a chlywed y newyddion da,

a mynd i Fethlehem i weld drosom ein hunain.

Nid y ffaith fod y Meseia wedi ei eni

oedd y peth mawr i ni ar y pryd,

ond mai *ni* a ddewiswyd i dderbyn y newydd,

cael y flaenoriaeth ar bawb arall!

Peidiwch â chamddeall, fe fyddem wedi llawenhau

pwy bynnag fyddai'r cyntaf,

oherwydd beth bynnag a ddywed pobl amdanom,

yr ydym mor dduwiol â neb,

ac yr oeddem wedi dyheu am ddyfodiad y Meseia,

gan weddio y digwyddai yn ystod ein hoes ni.

Ond cael bod y cyntaf i glywed,

cael gwahoddiad personol

i weld y Gwardwr newydd-anedig,

yr oedd hynny y tu hwnt i bob dychymyg,

a golygodd fwy i ni nag y gall neb arall ei ddychmygu.

Yn sydyn rhoddwyd gwerth arnom unwaith eto,

a chael ein hadnabod fel unigolion.

Yn sydyn gallem ddal ein pennau'n uchel,

gan wybod fod gennym yr un hawl â phawb i rodio'r ddaear yma.

Yn sydyn nid oedd barn eraill amdanom yn ein blino;

os nad oeddent hwy yn ein hoffi,

yr oeddem yn bwysig yng ngolwg Duw,

a doedd dim yn bwysicach na hynny i ni.

Yn ddiau, bydd rhai yn parhau i farnu,

parhau i'n diystyru

gyda'u hedrychiadau hunangyfiawn.

Ond nid wyf yn poeni mwyach,  
oherwydd y mae dywediad arall  
sydd i mi yn dweud y cyfan:  
'Gwell hynawsedd na phryd'.  
Mae Duw wedi dangos i mi  
ei fod yn edrych o dan yr wyneb,  
ac yn gweld y person am yr hyn ydyw,  
a hwnnw'n berson mwy gwerthfawr yn ei olwg  
nag y byddech yn meiddio ei ddychmygu.

### **Gweddi**

O! Dduw grasol,  
yr ydym yn euog o farnu wrth olwg.  
Er ein bwriadau da  
methwn â threchu'n rhagfarnau.  
Maddau i ni  
am y troeon y bu i ni ddelio yn annheg â phobl,  
am y boen a'r gofid a achoswyd  
ac am bob cyfle sydd wedi ei warafun.  
Dysg i ni weld drwy dy lygaid di,  
a sylweddoli'r gwerth ym mhawb.

**Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies**